

## Cwricwlwm Lefel Uchel

Dylai model cwricwlwm lefel uchel adeiladu ar y weledigaeth ar gyfer y cwricwlwm. Dylai ystyried pa wybodaeth, sgiliau a phrofiadau allweddol y dylai dysgwyr eu datblygu er mwyn gwneud cynnydd dros amser yn unol â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a thuag at y pedwar diben, a'r gwerthoedd a'r ymagweddau sy'n sail iddynt. Bydd adrannau 'Cynllunio eich cwricwlwm' o ganllawiau Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi'r broses hon.

## Beth mae hyn yn ei olygu i ysgolion?

Dylai ysgolion sefydlu egwyddorion cynllunio er mwyn:

- pennu egwyddorion cynllunio er mwyn sicrhau safonau uchel a galluogi pob dysgwr i wneud cynnydd da a chynladwy
- datblygu dulliau gweithredu cychwynnol ar gyfer gofynion gorfodol y cwricwlwm (gweler 'Crynodeb o'r gofynion ar gyfer cyflwyno' isod)

Dylai ysgolion feithrin dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Dylent:

- ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd mewn ysgol, gan nodi beth mae hyn yn ei olygu i'w chyd-destun
- rhannu a thrafod y ddealltwriaeth gychwynnol hon o fewn clwstwr yr ysgol a myfyrio ar y trafodaethau hyn i ddatblygu syniadau'r ysgol ymhellach
- mae cydweithio mewn clystyrau i sicrhau bod pawb yn berchen ar gynnydd ar y cyd yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn symud yn effeithiol ar hyd y continwmm 3 i 16. Dylai hyn gynnig cydlyniant rhwng cwricwla mewn cyfnodau gwahanol wrth adlewyrchu gweledigaeth unigryw pob ysgol. Dylai gefnogi cynnydd dysgwyr ac ymwneud â datblygu a threialu prosesau ar y cyd i gefnogi trosglwyddiad dysgwyr

Dylai ysgolion ddatblygu model cwricwlwm lefel uchel ar y cyd, gan gynnwys trefniadau asesu i gefnogi cynnydd pob dysgwr, sy'n:

- ystyried dulliau gweithredu o ran sut y caiff y Meysydd, y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, yr egwyddorion cynnydd a'r disgyblaethau eu defnyddio i lywio'r broses o gynllunio'r cwricwlwm ac asesiadau
- ystyried amrywiaeth o dulliau (er enghraifft disgyblaethol, rhyngddisgyblaethol, amlddisgyblaethol) o gynllunio'r cwricwlwm a'r ffordd y gall dulliau gefnogi cynnydd
- ar ôl datblygu cynnydd lefel uchel, ystyried sut y gellir trefnu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau er mwyn cefnogi cynnydd dysgwyr yn y ffordd orau
- sicrhau bod cysylltiad clir rhwng datblygu'r cwricwlwm a'r pedwar diben, gan geisio cyfleoedd i ddatblygu'r nodweddion hyn ymhellach